Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Dyfrdwy
# Safle Cynwyd
# Cynwyd
# Corwen
# Sir Ddinbych
# LL21 0LG

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Bro Dyfrdwy wedi ei lleoli ym mhentref Cynwyd, tua thair milltir o Gorwen. Sefydlwyd yr ysgol ar ddau safle ym mis Ionawr 2013, o ganlyniad i gyfuno Ysgol Maes Hyfryd ac Ysgol Llandrillo. Yn dilyn gwaith adeiladu sylweddol, symudodd yr ysgol i safle Ysgol Maes Hyfryd ym mis Medi 2014. Mae'r pennaeth presennol, sef pennaeth Ysgol Maes Hyfryd gynt, yn ei swydd ers i'r ysgol agor yn Ionawr 2013. Mae'r ysgol gymunedol hon yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos ac fe'i cynhelir gan awdurdod Sir Ddinbych.

Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Derbynnir disgyblion i'r ysgol fel plant oedran meithrin yn rhan-amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed cyn iddynt ddechrau yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed. Mae 116 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ac fe'u haddysgir mewn pum dosbarth, gyda tri o'r dosbarthiadau yn cynnwys disgyblion o oed cymysg.

Tua 8% o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Mae tua 16% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Dyfrdwy yn 2014-2015 yw £4,838. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £9,103 a'r lleiafswm yw £2,902. Mae Ysgol Bro Dyfrdwy yn yr 20fed safle o'r 47 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod bron bob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel yn y gwersi ac yn eu llyfrau
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio iaith yn effeithiol ac yn hyderus
- Bod gan rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn dangos diddordeb a balchder yn eu gwaith
- Bod ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn ganmoladwy ac maent yn barchus tu hwnt i'w gilydd ac i ymwelwyr
- Bod yr athrawon yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu
- Bod yr ysgol yn darparu'n drwyadl ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod yr arweinwyr yn arwain yr ysgol yn effeithiol
- Bod ymdeimlad cryf iawn o waith tîm ymysg yr holl staff
- Bod gan aelodau'r corff llywodraethol ymrwymiad cryf i'w cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n gyson at bennu cyfeiriad strategol i waith a bywyd yr ysgol
- Bod arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r broses hunanarfarnu yn effeithiol i osod blaenoriaethau a thargedau priodol ar gyfer gwella
- Bod gan yr ysgol nifer o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol

A2 Gwneud defnydd mwy effeithiol o ganfyddiadau asesu er mwyn olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr

A3 Grymuso rôl rhieni ym mhrosesau hunanarfarnu'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safon medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion ar fynediad i'r ysgol ychydig yn is na'r disgwyl. Mae bron bob un yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel yn y gwersi ac yn eu llyfrau. Maent yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd wrth drafod eu gwaith a datblygu eu medrau meddwl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa eang sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau a'u diddordebau. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Mae bron pob disgybl ar frig yr ysgol yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan amrywio'u sgwrs yn gwbl naturiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn barod i fynegi barn ac yn cefnogi eu sylwadau drwy resymu'n ddilys.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn darllen â chywirdeb, rhugldег a mynegiant. Mae mwyafrif yn darllen yn rhwydd iawn ac yn arddangos gwir fwynhad. Mae bron pob disgybl yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd ac wrth bennu ystyr. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall bron pob un drafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau yn hyderus yn y ddwy iaith ac mae eu dealltwriaeth o'r testun yn dda. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn trafod cynnwys y testun a chymeriadau mewn modd aeddfed. Ar draws y cyfnod, mae mwyafrif yn cywain gwybodaeth am bwnc arbennig o fwy nag un ffynhonnell yn hyderus. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wnaethpwyd ar ganfod ffeithiau am amodau byw yn oes y Tuduriaid.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol gan ddefnyddio strwythur brawddegau addas ac atalnodi sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ansoddeiriau ac atalnodi i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu am hanes tedi yn teithio i'r lleuad.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus at wahanol ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Maent yn defnyddio ystod addas o batrymau brawddeg ac yn dangos gafael gynyddol o gywirdeb ieithyddol ac atalnodi. Mae llawer yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur faciwî fel rhan o astudiaeth o'r Ail Ryfel Byd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio geiriau ac ansoddeiriau i greu

effeithiau yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw stori arswyd wedi'i lleoli yng nghastell Conwy. Ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad gwaith bron bob un disgybl yn daclus.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu defnyddio strategaethau rhif syml yn gywir yn eu gwaith. Gall llawer lunio graff bloc syml gydag ychydig o arweiniad, a thynnu gwybodaeth berthnasol ohono, er enghraifft wrth gofnodi arolwg traffig Cynwyd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio unedau safonol gywir wrth fesur hyd a phwysau gwrthrychau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, ac maent yn hyderus wrth gymhwyso ystod eang o strategaethau mathemategol i ddatrys problemau rhif. Maent yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed a chan ddefnyddio geirfa fathemategol yn naturiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trosglwyddo'r medrau yn rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gymharu glawiad Cynwyd gyda gwledydd eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch mewn llythrennedd wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol dros yr un cyfnod ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% isaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch yn y 25% isaf mewn Saesneg a mathemateg o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf, a pherfformiad mewn gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% isaf.

Mae'r ysgol yn un gymharol newydd. Felly, nid oes digon o dystiolaeth i adrodd ar dueddiadau mewn perfformiad dros gyfnod o ran perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a pherfformiad bechgyn o gymharu â merched.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pan fyddant yn poeni neu'n gofidio. Mae bron bob un yn deall yr angen i gadw'n heini ac yn manteisio ar yr ystod o gyfleoedd sy'n cael eu cynnig i wneud hynny. Maent yn hapus iawn yn yr ysgol ac yn hynod gwrtais. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canran presenoldeb disgyblion wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae systemau cadarn yn eu lle i hyrwyddo ac i hybu presenoldeb a phrydlondeb da.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn grwpiau brwdfrydig o ddisgyblion. Mae'r aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn weithgar yn yr ysgol ac mae llais y disgybl yn cael lle amlwg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth greu cynllun i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion ac wrth greu gwefan ysgol. Mae'r disgyblion yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill. Enghraifft dda o hyn yw'r prynhawn coffi llwyddiannus i godi arian tuag at apêl Nepal. Mae'r 'grŵp effeithiolrwydd' yn ymgais newydd i gryfhau llais y disgybl ymhellach.

Mae'r aelodau yn dechrau cyfrannu'n fuddiol i ddatblygiad yr ysgol, er enghraifft, drwy gynnal arfarniad o adnoddau'r ysgol o bersbectif plentyn, ar y cyd ag aelod o'r corff llywodraethol.

Mae medrau personol a chymdeithasol, ynghyd â medrau bywyd y disgyblion, yn datblygu'n effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb a balchder tuag at eu gwaith. Gall llawer weithio'n annibynnol am gyfnodau estynedig, gan arddangos dyfalbarhad. Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn ganmoladwy ac maent yn barchus tu hwnt i'w gilydd ac i ymwelwyr.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau amrywiol a diddorol ar draws yr ysgol sy'n bodloni holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhif a TGCh, ynghyd â medrau meddwl y disgyblion, yn effeithiol. Mae cyfleoedd cyson iddynt gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn cynllunio profiadau ysgogol yn yr ardaloedd tu mewn a'r tu allan, gan ennyn diddordeb y disgyblion ac adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol. Mae profiadau'r disgyblion yn cael eu cyfoethogi'n fedrus drwy ymweliadau addysgol tymhorol a thrwy ystod gynhwysfawr o weithgareddau ymarferol symbylus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am Gymru a'r iaith Gymraeg yn gadarn. Mae cyfleoedd cyson ar gyfer astudio hanes lleol, chwedlau a hanes Cymry enwog. Er enghraifft, bu i astudiaeth o chwedl Blodeuwedd arwain at waith celf deniadol o dan arweiniad artist Cymreig. Mae ystod o ymweliadau â mannau diddorol, holi ymwelwyr a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt gyfrannu yn eu cymuned ac yn genedlaethol drwy weithgareddau fel yr Urdd a digwyddiadau lleol, er enghraifft wrth gasglu a rhannu ffrwythau a llysiau ymysg henoed y gymuned adeg Diolchgarwch. Mae hyn yn ehangu eu dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth, ac yn gymorth iddynt ddeall eu rôl o fewn y gymuned.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o brofiadau ysgogol sy'n hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cynaliadwyedd yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw'r trefniadau ailgylchu helaeth a monitro gwastraff bwyd amser cinio. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang, er enghraifft drwy waith thematig fel taith tedi i Ffrainc a chysylltiadau â gwledydd eraill fel Lesotho.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl athrawon yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae eu cyflwyniadau a'u cyfarwyddiadau yn glir, ac mae strwythur cadarn y gwersi yn sicrhau bod disgyblion yn gallu ymateb yn llwyddiannus i'w tasgau. Mae cyflymder addas i'r addysgu ac mae'r athrawon a chymorthyddion yn cynnal a chefnogi disgyblion mewn modd sy'n hybu annibyniaeth yn dda. Mae

gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol. Mae'r staff yn fodelau iaith dda ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion yn efelychu a defnyddio iaith yn effeithiol ac yn hyderus.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu yn y gwersi. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant ac yn defnyddio canmoliaeth yn fedrus i annog y disgyblion llai hyderus i wneud cynnydd gwerthfawr. Mae'r disgyblion yn elwa o'r ffaith fod eu hathrawon yn trafod ansawdd eu gwaith mewn modd sensitif ac adeiladol. Mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd a rhoddir sylwadau adeiladol ar lawer o'r ymdrechion. Lle mae'r marcio fwyaf effeithiol, mae sylwadau'r athrawon yn arwain at ddisgyblion yn ymateb i'r cyngor a roddwyd iddynt drwy roi cynnig ar wella eu hymdrechion cyntaf. Er hynny, nid yw arferion gorau asesu ar gyfer dysgu'n cael eu gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn deall anghenion eu disgyblion yn dda ac, ar y cyfan, yn darparu gweithgareddau heriol er mwyn eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion ond nid yw'n gwneud defnydd digon effeithiol o ganfyddiadau asesu er mwyn olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn llawn gwybodaeth gwerthfawr. Mae rhieni yn derbyn adroddiad ysgrifenedig am gynnydd eu plant, yn ystod ac ar ddiwedd blwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn effeithiol. Caiff pwysigrwydd iechyd corfforol ei bwysleisio'n gyson drwy'r cwricwlwm a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb yn gadarn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion yn effeithiol. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy wasanaethau ysgol gyfan reolaidd a gweithgareddau eraill yn y gymuned leol. Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol ar gyfnodau priodol gan gynnwys yr heddlu, er enghraifft i godi ymwybyddiaeth am e-ddiogelwch. Mae'r staff yn monitro lles disgyblion yn dda ac yn gweithredu'n gyflym ac yn sensitif er mwyn ymateb i bryderon.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drwyadl. Mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae cynlluniau priodol yn cael eu darparu er mwyn ceisio mynd i'r afael â gofynion penodol unigolion. Mae'r broses hon yn cynnwys y rhieni a'r plentyn yn effeithiol. Mae'r cymorthyddion yn cyfrannu'n fuddiol at gyfoethogi profiadau dysgu a lles cyffredinol y disgyblion. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn gwerthuso unrhyw gynnydd yn rheolaidd.
Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned agos a chroesawgar sydd yn llwyddo i greu ethos cynhwysol gydag ystod o bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle i hyrwyddo cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth. Mae pwyslais amlwg ar barch ac mae gan lais y disgybl le amlwg ym mywyd yr ysgol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngweithgareddau’r cyngor ysgol, y pwyllgor eco ac yn fwy diweddar y grŵp effeithiolrwydd, sydd oll â rôl flaenllaw ym mywyd yr ysgol.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleusterau da iawn ar gyfer nifer y disgyblion ac fe wneir defnydd creadigol ohonynt. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd deniadol yn y dosbarthiadau a mannau cyhoeddus yr adeilad, sy’n cefnogi’r addysgu’n dda. Mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth o adnoddau pwrpasol sydd o ansawdd da iawn ac yn cyfoethogi’r profiadau dysgu yn effeithiol.

Mae’r tir yn eang gydag offer pwrpasol i’r disgyblion sydd yn annog chwarae a ffitrwydd, er enghraifft y maes chwarae pob tywydd. Mae’r ysgol yn defnyddio’r adnoddau allanol yn effeithiol, er enghraifft y llwyfan perfformio ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae ardal gysgodol allanol y Cyfnod Sylfaen yn ehangu profiadau dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae’r adeiladau a'r tir yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus tu hwnt ac maent yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer chwarae a dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr yr ysgol yn effeithiol ac maent wedi sefydlu systemau cyfathrebu clir ac ymdeimlad cryf iawn o waith tîm ymysg yr holl staff. Mae pawb yn cydweithio'n effeithiol er mwyn canolbwyntio ar godi safonau a lles disgyblion. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Maent yn defnyddio data i fonitro a herio perfformiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cyfeiriad clir a chadarn i'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar brofiadau dysgu ysgogol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad. Enghraifft o hyn yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn effeithiol. Mae gan y staff rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, ac maent yn ymgymryd â nhw yn gydwybodol ac yn drylwyr. O dan arweiniad y pennaeth, maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod cydweithio’n adeiladol ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac mae gweithredu dulliau asesu ar gyfer dysgu ynghyd â ymgorffori’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ymrwymiad cryf i'w cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n gyson at bennu cyfeiriad strategol i waith a bywyd yr ysgol. Mae ganddynt wybodaeth glir am ddata perfformiad a blaenoriaethau'r ysgol. Maent yn gwirio effeithiolrwydd yr addysgu yn rheolaidd wrth ymweld â'r ysgol drwy 'deithiau dysgu' ac wrth fonitro gwersi a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, maent yn herio'r ysgol ynglŷn â safonau disgyblion a'r dulliau addysgu yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu yn rhan ganolog o weithdrefnau'r ysgol ac mae gan y staff ac arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a mannau lle mae angen gwelliant. Mae'r arweinwyr a'r staff yn cyfrannu'n effeithiol wrth greu adroddiadau cynhwysfawr ac arfarnol am ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen ddefnyddiol a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau disgyblion a gwella darpariaeth. Mae'r broses wedi ei seilio'n gadarn ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion, trafodaethau â disgyblion a dadansoddiad manwl ac effeithiol o ddata. Er hynny, nid yw'r broses yn cynnwys canfyddiadau o drafodaethau â rhieni.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r broses hunanarfarnu yn effeithiol wrth osod blaenoriaethau a thargedau priodol ar gyfer gwella. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen fanwl sy'n cynnwys nifer rhesymol o flaenoriaethau clir a phwrpasol. Mae'r arweinwyr yn adolygu targedau blynyddoedd blaenorol ac yn nodi materion pellach sydd angen gweithredu arnyn nhw. Mae'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni'r bwriadau yn fanwl, ac amserlen weithredu, cyfrifoldebau staff a dyraniad cyllid ar gyfer cyflawni'r gwaith yn glir. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys targedau meintiol a heriol sy'n gysylltiedig â chodi safonau. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â rhieni. Mae'r ysgol yn elwa'n ariannol drwy law y cymdeithas rieni ac athrawon gweithgar sy'n cyfrannu yn sylweddol at adnoddau, fel y buddsoddiad mewn cyfarpar technoleg gyfoes a datblygu'r ardaloedd allanol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at gyfoethogi'r ddarpariaeth ac ymestyn safonau'r disgyblion.

Mae partneriaeth gref yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw yn y pentref ac mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, fel dathliadau diwrnod Owain Glyndŵr, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn dda iawn. Daw nifer helaeth o ymwelwyr o'r gymuned i'r ysgol ac mae cysylltiadau agos rhwng yr ysgol â busnesau lleol. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu Cymreictod yn llwyddiannus.
Mae'r berthynas gadarnhaol â'r sefydliadau cyn-ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion lleol i gymedroli a chyd-safoni gwaith, cynllunio unedau o waith, rhannu profiadau a chyfnewid arferion da. Mae hyn wedi sicrhau dealltwriaeth

gadarn yr athrawon wrth lefelu gwaith disgyblion ac wedi arwain at godi safonau darllen a medrau ymresymu rhifyddol y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r trefniadau pontio cynhwysfawr â'r ysgolion uwchradd yn sicrhau bod disgyblion yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn hyderus. Mae partneriaethau buddiol yn bodoli rhwng yr ysgol a nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol ac mae wedi staffio'n briodol. Mae hyn yn sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn cael mynediad llawn i'r Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae’r staff yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn rhannu o'u harbenigedd a'u profiad i ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau. Enghraifft o hyn yw'r defnydd effeithiol o gyfnewid athrawon i addysgu agweddau gwyddonol a mathemategol yng nghyfnod allweddol 2, sy’n sicrhau dilyniant a pharhad yn yr addysgu a'r dysgu. Mae cymorthyddion dosbarth yn cydweithio'n effeithiol â'r athrawon ac yn cefnogi'r disgyblion yn fedrus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu wedi'i threfnu'n dda, ac mae'r athrawon yn defnyddio'r amser hwn yn effeithiol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad, sy'n ymateb i anghenion datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus. Caiff hyfforddiant ei gynllunio'n ofalus mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhan o rwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion y clwstwr a gyda grŵp penodol o ysgolion. Mae hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol at wella'r ddarpariaeth addysgol. Enghraifft dda yw’r cydweithio i godi safonau ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol.

Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei monitro'n effeithiol ac mae cyswllt clir rhwng y gwariant a blaenoriaethau’r cynllun datblygu. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau o fewn a thu allan i’r ysgol sy'n ymateb i anghenion y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sy’n arwain at godi brwdfrydedd a deilliannau'r disgyblion mewn nifer o weithgareddau ynghyd â gwella eu canrannau presenoldeb.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6632267 - Ysgol Bro Dyfrdwy**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 112 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 14 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 92.9 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 12 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 91.7 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 33.3 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 14 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 92.9 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 7.1 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 14 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 14.3 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6632267 - Ysgol Bro Dyfrdwy**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 112 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | * | 15 | 17 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | * | 73.3 | 70.6 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 15 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 86.7 | 82.4 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 20.0 | 29.4 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 14 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 92.9 | 82.4 |
| Chwartel meincnod | * | * | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 28.6 | 11.8 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 15 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 73.3 | 82.4 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 33.3 | 35.3 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 15 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | 93.3 | 70.6 |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 26.7 | 35.3 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 44 | 43<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 44 | 43<br>98%<br>92% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 44 | 43<br>98%<br>97% | 1<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 44 | 43<br>98%<br>97% | 1<br>2%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 44 | 41<br>93%<br>96% | 3<br>7%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 44 | 42<br>95%<br>96% | 2<br>5%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 44 | 42<br>95%<br>99% | 2<br>5%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 44 | 42<br>95%<br>98% | 2<br>5%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 44 | 40<br>91%<br>91% | 4<br>9%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 44 | 42<br>95%<br>95% | 2<br>5%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 42 | 32<br>76%<br>77% | 10<br>24%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 43 | 38<br>88%<br>84% | 5<br>12%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 88 | 66<br>75% | 21<br>24% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 88 | 72<br>82% | 15<br>17% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 88 | 74<br>84% | 12<br>14% | 2<br>2% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 88 | 63<br>72% | 24<br>27% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 86 | 58<br>67% | 27<br>31% | 1<br>1% | 0<br>0% | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 87 | 68<br>78% | 17<br>20% | 2<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 87 | 66<br>76% | 20<br>23% | 1<br>1% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 68 | 40<br>59% | 27<br>40% | 1<br>1% | 0<br>0% | 6 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 86 | 65<br>76% | 19<br>22% | 2<br>2% | 0<br>0% | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 86 | 60<br>70% | 25<br>29% | 1<br>1% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 88 | 68<br>77% | 19<br>22% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 71 | 47<br>66% | 23<br>32% | 1<br>1% | 0<br>0% | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 88 | 60<br>68% | 25<br>28% | 2<br>2% | 1<br>1% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 88 | 71 | 15 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 81% | 17% | 1% | 1% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 83 | 52 | 27 | 2 | 2 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 63% | 33% | 2% | 2% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 87 | 58 | 28 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 67% | 32% | 1% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 61 | 35 | 25 | 1 | 0 | 9 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 57% | 41% | 2% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 83 | 55 | 25 | 3 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 66% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 87 | 69 | 16 | 2 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 79% | 18% | 2% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eifion Lloyd Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Sioned Hywel Thomas | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Gwynn Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eirian Owain | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

3675 REF: sarah.beebee - 71010 - Room 5 Set Up - No - SENT

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran

sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.